Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Dyddiad: Dydd Gwener, 2 Gorffennaf 2004
Amser: 10.00am tan 1.00pm
Lleoliad: Theatr Colwyn
Teitl: Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd: Chweched adroddiad: Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn y Gogledd

Rhagarweiniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Mae'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a'r rhan o Wynedd sy'n cynnwys hen ardaloedd Arfon a Dwyfor.
2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2, swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â'u rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.
3. Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2004, ceisiodd y Pwyllgor godi ymwybyddiaeth a chlywed barn pobl y Gogledd am Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Ceir crynodeb o'r pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd yn yr adroddiad hwn.

Prif negeseuon

4. Dyma'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r cyfarfod:

- Roedd gwaith da'n cael ei wneud yn y Gogledd i ddenu buddsoddiadau cyfalaf a lleihau diweithdra.
- Roedd trafnidiaeth yn ffactor bwysig wrth geisio lleihau diweithdra.
- Byddai cyllid craidd ar gyfer cludiant cymunedol yn rhoi sefydlogrwydd i'r cynllun ac yn diogelu ei ddyfodol.
- Roedd tai fforddiadwy yn broblem yn y Gogledd. Dylai'r Cynulliad ymrwymo i gynlluniau sy'n darparu tai fforddiadwy er mwyn atal llu o weithwyr medrus rhag gadael yr ardal.
- Gellir gwneud mwy trwy gyfrwng swyddogion gyrfaoedd mewn ysgolion i addysgu plant am yr amrywiaeth o swyddi sydd ar gael a'u helpu i wneud dewisiadau doeth.

Cyflwyniadau

5. Yn ystod y cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn gwrando ar y cyflwyniadau byr isod. Ceir copïau ohonynt

yn yr Atodiadau.

- Chris Farrow ar waith Fforwm Economaidd y Gogledd i leihau diweithdra yn y Gogledd ers iddo gael ei sefydlu yn 1996;
- Ynyr Roberts ar gyflwyno band eang BT ar draws y DU ac yng Nghymru yn arbennig, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddatblygu economaidd yn y rhanbarthau;
- Ian Dickson ar waith Coleg Glannau Dyfrdwy a'r modd y mae'n cyfrannu at ddatblygu economaidd yn y Gogledd trwy bartneriaethau â chyflogwyr yn yr ardal.
- David Blainey ar fentrau Cyngor Sir y Fflint ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn arbennig gwasanaeth bws gwennol Glannau Dyfrdwy sy'n darparu gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw ar gyfer pobl sy'n teithio i'w gwaith yn yr ardal.

Sylwadau'r cyhoedd yn y Gogledd

6. Dyma'r pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd:

- Dywedodd Huw Edwards o Gyngor Tref Caernarfon ei fod yn falch o weld cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn gwaith yn y Gogledd ond bod mannau, gan gynnwys Caernarfon, lle'r oedd diweithdra'n broblem o hyd. Gofynnodd a fyddai modd gwneud mwy i helpu'r ardaloedd hyn.
- Dywedodd y Cynghorydd Armstrong Braun o Gyngor Sir y Fflint fod cwmnïau byd-eang yn bwysig i'r economi, ond y dylid canolbwyntio ar fusnesau lleol hefyd er mwyn creu swyddi lleol.
- Dywedodd hefyd fod prinder swyddi sy'n seiliedig ar sgiliau, er enghraifft plymwyr a seiri coed, yn yr ardal leol.
- Rhoddodd Brian Jones o Brifysgol Cymru Bangor, drosolwg o'r system rheilffyrdd yn Stuttgart lle'r oedd nwyddau'n cael eu cludo ar y ffyrdd, a phobl yn teithio ar y trenau er mwyn cadw'r ffyrdd yn glir ar gyfer cludo nwyddau. Awgrymodd y dylid cael system debyg yn y Gogledd o ystyried y rhwydwaith rheilffyrdd eang sydd ar gael.
- Soniodd Cathy Cook, gweithwraig datblygu cymunedol yn RAF Sealand, am faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth leol ar Ynys Môn. Dywedodd fod angen gwasanaeth bysiau gwell yn RAF Sealand a llwybrau troed gwell i'r ganolfan ei hun er mwyn galluogi pobl i deithio yn ôl ac ymlaen o'u gwaith.
- Roedd Chris Thomas, aelod o'r cyhoedd o Gei Connah, yn pwyso ar y Pwyllgor i ganolbwyntio ar dai fforddiadwy er mwyn galluogi pobl ifanc i aros yn yr ardal.
- Roedd Rhiannon Evans o'r Cyngor Cymuned yn cytuno â Chris Thomas bod angen tai fforddiadwy. Roedd hefyd yn amau gwerth yr isafswm cyflog o ystyried y prisiau tai uchel ar hyn o bryd.
- Soniodd y Cynghorydd George Johnson o Fae Colwyn am brinder sgiliau ac awgrymodd bod angen rhoi mwy o arian i golegau addysg bellach er mwyn darparu cyrsiau ar gyfer swyddi crefftus fel gwaith plymio a gwaith coed.
- Roedd un Cynghorydd o Dreffynnon yn pwyso ar y Cynulliad ac awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad mentergarwch cymdeithasol a holodd a fyddai talu gwirfoddolwyr i yrru yn creu gwasanaeth trafnidiaeth mwy dibynadwy.
- Awgrymodd John Watkin o Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint y gellid neilltuo cyllid ar gyfer

cynlluniau'n ymwneud â thrafnidiaeth gymunedol.
- Dywedodd Mair Williams o Gyngor Tref Caernarfon nad oedd digon yn cael ei wneud gan adrannau gyrfaoedd mewn ysgolion i gynghori plant ar eu dewisiadau.

Sylwadau ysgrifenedig

7. Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig cyn yn cyfarfod, yn ystod y cyfarfod ac yn dilyn y cyfarfod. Maent wedi'u nodi yn yr Atodiadau.

Y Camau Nesaf

8. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, gan alw arnynt i ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Bydd copïau hefyd yn cael eu rhoi i'r pwyllgorau perthnasol.

Carl Sargeant AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cymru.gov.uk. Os hoffech gael copi caled, anfonwch e-bost at NWales.regcomm@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch Silvia Ricondo ar 029 2089 8018.